**Cogydd dan Hyfforddiant**
**Maes y Dderwen, Wrecsam**
**25 awr yr wythnos**
**Parhaol.**
**Cyfradd yr awr yn ddibynnol ar brofiad a hyd at £10.90 yr awr**

Yma yn ClwydAlyn, rydym am recriwtio Cogydd dan Hyfforddiant ym Maes y Dderwen a fydd yn gweithio ochr yn ochr a chogydd y cynllun ac yn cynorthwyo i baratoi a darparu prydau, a chefnogi rhedeg y gegin o ddydd i ddydd.

Rhan-amser yw'r swydd hon ac yn barhaol yn ein Cynllun Gofal Ychwanegol yn Wrecsam.

- **A ydych chi yn chwilio am gydbwysedd bywyd gwaith rhagorol?**
- **A fyddech yn hoffi 25 diwrnod o wyliau cyflogedig (sy'n cynyddu i 30 diwrnod), gyda chyfle i brynu/gwerthu mwy o wyliau blynyddol?**
- **Derbyn cyfraniadau pensiwn cyflogwr hyd at 8%.**
- **Ymuno a chynllun beicio i'r gwaith.**
- **Derbyn talebau gofal llygaid.**
- **Pecyn mamolaeth rhagorol a llawer o fuddion cwmni eraill.**

**Os felly, fe allem ni fod yn berffaith i'n gilydd....**

**Sut yr ydym yn gweithio**
Mae ein pobl yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ein hamcan creiddiol yn canolbwyntio ar daclo tiodi ar draws Gogledd Cymru lle'r ydym yn darparu ein cartrefi a'n gwasanaethau.

Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein gwerthoedd o **Ymddiriedaeth, Caredigrwydd a Gobaith.** Rydym yn chwilio am rywun sy'n ymgorffori'r gwerthoedd yma'n llwyr!

**Amdanom Ni**

Mae Tai ClwydAlyn yn ddarparwr tai a gwasanaethau cefnogi cysylltiedig cyfeillgar i deuluoedd sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cael ei barchu ar draws Gogledd Cymru lle mae pobl yn ganolog i bopeth a wnawn. Rydym yn sefydliad gweithio ystwyth ac yn aelod o'r a ft Teuluoedd sy'n Gweithio, gan fyw ac anadlu ein gwerthoedd o ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd.

Rydym ar daith gyffrous a fydd yn ein gweid yn gweithredu cynllun busnes newydd yn canolbwyntio ar daclo tiodi a darparu gwasanaethau cartref gofal o safon ragorol ar draws Gogledd Cymru.

## Am Faes y Dderwen:

**Mae Maes y Dderwen yn ddatblygiad Gofal Ychwanegol newydd a adeiladwyd i'r diben, gan gynnig cyfuniad unigryw i chi o fywyd annibynnol, and gyda gofal hyblyg ar y safle 24 awr y dydd a chefnogaeth yn of yr angen, gan roi tawelwch meddwl i chi yn awr ac at y dyfodol.**

**Rydym wedi defnyddio ein profiad eang i ddatblygu fflatiau o safon uchel, sydd wedi eu hadeiladu i'r diben gan gynnig amgylchedd deifrydol ar gyfer eich holl anghenion, gan gynnig gofal, cefnogaeth a chymorth hyblyg i hybu annibyniaeth. Mae ein syiw i ddylunio da wedi ymestyn at bob agwedd o'r cynllun a'r fflatiau - maent wedi eu hinswleiddio fel eu bod yn gyfforddus ac yn effeithion o ran ynni, mae ynddynt dechnoleg i helpu i gefnogi bywyd annibynnol ac maent yn ddiogel a chyfleus, ac eto yn cynnig amgylchedd cartrefol a modern, mewn gerddi deniadol sy'n cael eu cynnal yn dda.**

**Mae gwneud ffrindiau newydd yn hawdd, datblygwyd yr ardaloedd cymunedol i annog cymdeithasu ac mae llu o gyfleusterau ar y safle i chi eu mwynhau.**

**Mae Cynllun Gofal Ychwanegol Maes y Dderwen ar Ffordd Grosvenor, mewn lleoliad cyfleus yng nghanol Wrecsam, gyda'r cyfleusterau lleol a'r siopau o fewn cyrraedd wrth gerdded. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth o fewn cyrraedd hawdd.**

## Am bwy yr ydym yn chwilio?

**Mae'r swydd yn un o'n Cynlluniau Gofal Ychwanegol yn Wrecsam mewn cegin fodern yn cynhyrchu a dosbarthu'r pryd dyddiol ar amser cinio i'n 50 o denantiaid ym mwyty'r cynllun yn y cynllun Byw'n Annibynnol hwn i bobl Kin.**

- **Rhywun fydd yn rhoi cymorth i baratoi bwyd, gwneud/pobi pwdinau**
- **Cynorthwyo i gynnal lefelau'r stoc**
- **Cefnogi'r cogydd/cogydd cyfrifol/prif gogydd i gadw amgylchedd gwaith glan a diogel.**
- **Parodrwydd i weithio tuag at ofynion Hawn swydd y Cogydd a disgwylir i chi gwblhau Lefel 2 mewn Lletygarwch ac Arlwyo a chymhwyster arweinydd tim/rheoli cydnabyddedig.**
- **Rhywun sydd a phrofiad blaenorol o weithio mewn lletygarwch / y sector gofal**

## Sgiliau a Chymwysterau gofynnol ar gyfer y swydd:

- **Sgiliau TG sylfaenol**
- **Chwaraewr tim cryf**
- **Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar**
- **Trin arian parod**
- **Sgiliau hylendid cyffredinol da**

**Ar gyfer y rol hon bydd arnoch angen gwiriad Trylwyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, y byddwn ni'n talu amdano.**

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon ac y byddech yn hoffi sgwrsio ymhellach, cysylltwch, rhowch alwad i Wayne y Rheolwr Arlwyo ar 07393806413 neu Colin Sibley ar 07468752417.

**I ymgeisio anfonwch fynegiant o ddiddordeb yn nodi pam y byddech yn hoffi ymgeisio, gyda'ch CV os yn bosibl, at peopleteamOclwydalyn.co.uk.**

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella ein harferion recriwtio ac efallai y byddwn yn anfon e-bost atoch yn gofyn i chi am adborth a'ch barn am y profiad recriwtio hefo ni, os byddai'n well gennych i ni beidio a chysylltu a chi, amlygwch hyn yn ystod y broses ymgeisio.